Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun nos Lun, 28 Tachwedd 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Geraint Woolford (Maer), Cynghorydd James Bryan (Dirprwy Faer) a'r Cynghorwyr Stephen Beach, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

123. CYFLWYNIAD AR Y PROSIECT iBEACONS

Croesawodd y Maer Sarah Jones o Gadwyn Clwyd, swyddog arweiniol y Prosiect iBeacons, a gyflwynodd yr ymgynghorwyr sy'n gweithio ar y prosiect, Lorna Jenner, Bill Smuts a Jo Danson. Esboniodd eu bod yn chwilio am chwe chymuned o Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint i gymryd rhan yn y prosiect, ar gost o £750 a fyddai'n denu cyllid ychwanegol ac yn sicrhau cytundeb cynnal a chadw tair blynedd o hyd. Dangosodd Bill Smuts enghreifftiau o'r math o gynnwys a ddangosir gan y prosiect yn ardal Helygain lle mae'r 'ap' eisoes yn weithredol. Esboniodd Lorna Jenner fod y teclynnau yn fach, ddim yn amlwg ac yn gwrthsefyll y tywydd, gyda hyd oes batri o 400 diwrnod. O ran y cymunedau sy'n dymuno cymryd rhan yn y prosiect, byddai criw o wirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i ddiweddaru'r wybodaeth a gwirio'r batris. Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau ofyn cwestiynau. Dywedodd aelod fod technoleg yn datblygu trwy'r amser a beth fyddai'n digwydd ar ôl tair blynedd? Barn yr ymgynghorwyr oedd y byddai'r dechnoleg Bluetooth yn parhau i gael ei ddefnyddio. Holodd aelod arall am ystod y signal, ac fe'i hysbyswyd y gall hyn fod hyd at 150 medr, gyda'r gallu i bennu'r ystod o 2 fetr. Holodd aelod arall sut y byddai pobl yn dod i wybod am hyn a'r ateb oedd y byddai'r prosiect yn cael ei farchnata gyda thaflen i hyrwyddo'r llwybrau iBeacons, yn cynnwys 18 o gymunedau, yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad.*

124. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain, Elisabeth Culshaw a Rosie Hughes-Moseley.

125. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Heather Williams ddatgan budd personol yn eitem 11 – Cais am Gymorth Ariannol, CAB Rhuthun, gan fod ei gŵr yn Drysorydd Anrhydeddus CAB Sir Ddinbych.

126. ADRODDIAD Y MAER

Hysbysodd y Maer am yr ymweliadau a ganlyn ers y cyfarfod diwethaf.

27.10 Ceir rali yn paratoi ar gyfer Rali GB Cymru ('shakedown')
29.10 Bore Hwyl Cylch Meithrin Rhuthun, Diwrnod Agored Gunn JCB a digwyddiad codi arian tuag at ymgyrch Rhyddid Freya
30.10 Digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru
31.10 Cyfarfod yn Llys Erw ynghylch y dathliadau Calan Mai
04.11 Arddangosfa tân gwyllt yng Nghanolfan Llanfwrog
07.11 Seremoni torri'r dywarchen gyntaf ar gyfer yr ysgolion newydd ar safle Glasdir
13.11 Gwasanaeth Sul y Cofio
16.11 Cyfarfod Blynyddol Cadeiryddion a Chlercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned gyda Chadeirydd, Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych
17.11 Ail-lansio cwmni Waterco ar Ystad Ddiwydiannol Lôn Parcwr
18.11 Lansio 'Chwilio eich Archifau' a chyfarfod blynyddol ac arferol y Gymdeithas Efeillio
19.11 Ffair Grefftau'r Inner Wheel
23.11 Bore coffi Ambiwlans Urdd Sant Ioan a chyfarfod gyda Neill Hughes, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch arwyddion cyfeirio cerddwyr
26.11 Pencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Ysgol Brynhyfryd, Ffair Nadolig Llys Marchan a bore coffi Sglerosis Ymledol yn y Llyfrgell

127. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan	Gwasanaeth Sul Dinesig Maer Caerwys, arddangosfa tân gwyllt, Cyfarfod Blynyddol a chyfarfodydd pwyllgor Gŵyl Rhuthun a Gwasanaeth Sul y Cofio.
Cyng. Stephen Beach	Digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru, seminar Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru â chynrychiolwyr y Trydydd Sector, Fforwm Llywodraethwyr Sir Ddinbych, Gwasanaeth Sul y Cofio, digwyddiad Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Gŵyl Rhuthun, noson gaws a gwin er budd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a lansio 'Archwilio eich Archifau'.
Cyng. June Derry	Gwasanaeth Sul y Cofio.
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth Sul y Cofio, noson gaws a gwin er budd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a lansio 'Archwilio eich Archifau'.
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Noson gaws a gwin er budd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Menna Jones	Digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru, Gwasanaeth Sul y Cofio, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Borthyn a lansio 'Archwilio eich Archifau'.
Cyng. Ian Lewney	Gwasanaeth Sul y Cofio, digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru a noson gaws a gwin er budd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 sesiwn Banc Bwyd a Gwasanaeth Sul y Cofio.
Cyng. Anne Roberts	Fforwm i'r rhai dros 50 oed yn Llys Erw, stiwardio yng nghyngerdd Joe a Jake gydag Ymlaen Rhuthun, cyfarfod yn Llys Erw ynghylch y prosiect Calan Mai, seminar Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru â chynrychiolwyr y Trydydd Sector, arddangosfa tân gwyllt, 11 Tachwedd wrth y Gofeb Rhyfel, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, Gwasanaeth Sul y Cofio, digwyddiad Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, noson gyda Neil Taylor yng Nghlwb Peldroed Rhuthun, cyfarfod gyda Neill Hughes, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch arwyddion i gyfeirio cerddwyr, cyfarfod Ymlaen Rhuthun ynghylch dathliadau'r Nadolig, digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru, noson gaws a gwin er budd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a lansio 'Archwilio eich Archifau'.
Cyng. Heather Williams	Digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru, Gwasanaeth Sul y Cofio, digwyddiad Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, noson gaws a gwin er budd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch a lansio 'Archwilio eich Archifau'.
Cyng. Emrys Wynne	Digwyddiad ail-lenwi yn Rhuthun Rali GB Cymru, Gwasanaeth Sul y Cofio a lansio 'Archwilio eich Archifau'.

128. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016 yn gywir.*

129. MATERION YN CODI

Gofynnodd aelod am ddiweddariad ynghylch enwi'r Ffordd Gyswllt Ogleddol yn Ffordd Glasdir. Addawodd y Clerc gysylltu â'r swyddog perthnasol eto.

130. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016. Cyfeiriodd y Cynghorydd Ken Hawkins at y goleuadau newydd ar lefel y ddaear o gwmpas

Eglwys Sant Pedr a chynigiodd y dylid adnewyddu'r ddau olau lefel uwch gyda lampau sy'n rhoi golau gwyn. Roedd yr holl aelodau'n cytuno â hyn.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod ac adnewyddu'r goleuadau lefel uwch sy'n goleuo Eglwys Sant Pedr.*

131. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

132. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL - CYLCH MEITHRIN RHUTHUN
Bu'r Aelodau'n ystyried y cais manylach gan Gylch Meithrin Rhuthun, a oedd yn amlinellu'r offer synhwyraidd roedd y mudiad yn dymuno eu prynu. Yn dilyn trafodaeth
PENDERFYNWYD*: prynu offer gwerth hyd at £450 trwy Gyngor Tref Rhuthun fel y gall y Cyngor Tref hawlio'r elfen Treth ar Werth yn ôl.*

133. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYNGOR AR BOPETH RHUTHUN
Ystyriodd yr aelodau gais gan Gyngor ar Bopeth Rhuthun am £2,000. Roedd yr aelodau'n awyddus i gefnogi'r swyddfa CAB leol ond am gael sicrwydd y byddai'r cyllid yn cael ei wario yn Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: gwahodd Eleri Jones, Rheolwr CAB Rhuthun, i anerch cyfarfod Ionawr.*

134. NODIADAU I GYD-FYND Â'R FFURFLEN CAIS AM GYMORTH ARIANNOL
Ystyriodd yr aelodau'r nodiadau canllaw arfaethedig i gyd-fynd â'r ffurflen cais am gymorth ariannol. Awgrymodd y Cynghorydd Emrys Wynne ychwanegu cymal yn y nodiadau yn ogystal ag ar y ffurflen yn cyfeirio at gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: mabwysiadu'r nodiadau canllaw, yn amodol ar ychwanegu cymal ynghylch Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.*

135. TREFNIADAU AR GYFER GOLEUO'R GOLEUADAU NADOLIG, 3 RHAGFYR
Ystyriodd yr aelodau gais gan Gymdeithas Pantomeim Rhuthun am gael defnyddio'r cyflenwad trydan o Dŵr Cloc Peers, a chais gan Alex Hughes, trefnydd y Farchnad Nadolig, i Gyngor Tref Rhuthun drefnu a thalu am gludo'r rhwystrau i ac o Sgwâr Sant Pedr ar gyfer y farchnad.
PENDERFYNWYD*: caniatáu mynediad i'r cyflenwad trydan a threfnu cludo'r rhwystrau ar gyfer y farchnad ar gost o £75 + TAW bob ffordd.*

136. CAIS GAN DARREN MILLAR, AC
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Darren Millar AC i anerch cyfarfod mis Rhagfyr Cyngor Tref Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: gwahodd Darren Millar AC i anerch y cyfarfod ar 19 Rhagfyr.*

137. ADNEWYDDU TANYSGRIFIAD BLYNYDDOL I GYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Bu'r aelodau'n ystyried y gwahoddiad i adnewyddu'r tanysgrifiad blynyddol i'r Gymdeithas uchod ar gost o £55.00. Nodwyd mai'r gwir gost oedd y tâl aelodaeth ynghyd a chost dau ginio ymhob cyfarfod chwarterol. O gofio'r newidiadau disgwyliedig i gynghorau tref a chymuned cynigiwyd bod Cyngor Tref Rhuthun yn adnewyddu ei aelodaeth.
PENDERFYNWYD*: adnewyddu'r tanysgrifiad blynyddol ar gost o £55.00.*

138. RHYDDHAU AIL RANDALIAD LWFANS Y MAER
Gofynnwyd i aelodau gytuno i ryddhau ail randaliad Lwfans y Maer.
PENDERFYNWYD*: talu ail randaliad lwfans y Maer, sef £600.00.*

139. GOHEBIAETH
Derbyniodd yr aelodau'r eitemau gohebiaeth a ganlyn:

i. Clwb Peldroed Rhuthun – ymgyrch ariannu torfol i wella tiroedd y clwb
ii. Cais Llywodraeth Cymru am ddigwyddiadau i'w cynnwys yn Rhaglen 2017 Cymru'n Cofio / Wales Remembers 1914-18
iii. Ymgynghoriad/ymchwiliad i Strategaeth newydd y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD: *nodi'r ohebiaeth a bod y Maer yn gwneud ymholiadau ynghylch cost cael baner Cyngor Tref Rhuthun yng Nghlwb Peldroed Rhuthun a Chlwb Rygbi Rhuthun.*

140. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2016.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2016.*

141. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeadwyo talu'r taliadau isod.*

953	Fineline	Nwyddau swyddfa – pocedi plastig	*	£7.44
954	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Tachwedd		£171.30
955	J Lloyd a'i Fab Cyf.	Gosod cadwyn bigog ger Cofeb Tom Pryce	*	£660.00
956	Fineline	Papur sidan ar gyfer taflenni trefn y gwasanaeth Sul y Cofio	*	£13.93
957	Fineline	250 copi o Galendr Elusennol 2017 y Maer	*	£589.43
D.U.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	£114.12
958	I T Williams Co. Ltd	Cludo cynwysyddion mewnol y basgedi crog	*	£396.00
959	Sandra Williams	Te, coffi a bisgedi Sul y Cofio		£17.73
960	SLCC	Cynhadledd Cymru yn Llandudno	*	£35.40
961	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
962	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
963	Humphreys Signs & Print	Cynhyrchu a gosod arwyddion Cunning Green	*	£930.00
964	Fineline	Cardiau Nadolig y Maer	*	£173.83
965	Glasdon UK Ltd	Sedd Stanford ar gyfer Cwningar y Castell	*	£1,073.85

142. CYFRANIAD I'R LLENG BRYDEINIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gwneud cyfraniad i'r Lleng Brydeinig.

PENDERFYNWYD*: gwneud cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig.*

143. CAIS I FYND I SESIWN HYFFORDDIANT

Ystyriodd yr aelodau gais gan y Clerc i fynd i sesiwn hyfforddiant ar Ddefnydd Technoleg Gwybodaeth, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn yr Wyddgrug ar gost o £45.00

PENDERFYNWYD*: cytuno i'r cais am fynd i'r hyfforddiant.*

144. GRŴP DINESYDD DA / PERSON IFANC Y FLWYDDYN

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad ym mis Ionawr i gynnal cyfarfod o'r Grŵp uchod i drafod trefniadau ar gyfer Gwobrau 2017.

PENDERFYNWYD*: trefnu cyfarfod yn ystod y dydd ym mis Ionawr.*

145. GRŴP PENODI CLERC Y DREF

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad i adolygu penderfyniad proffil cyflog Clerc y Dref.

PENDERFYNWYD*: trefnu dyddiad gynted ag y bo modd.*

146. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 19 Rhagfyr 2016 am 7:00pm.*